OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 No. 58

# Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2016

## RHAN 10

### Datblygiad Anawdurdodedig

**Darparu gwybodaeth**

**44.**—(1) Rhaid i'r awdurdod cynllunio perthnasol ac unrhyw berson, ac eithrio Gweinidogion Cymru, yr anfonwyd copi o hysbysiad rheoliad 42 iddynt ("yr ymgynghorai rheoliad 42"), ymgynghori â'r person hwnnw, os gofynnir iddo wneud hynny gan y person y cyflwynwyd yr hysbysiad rheoliad 42 iddo, er mwyn penderfynu a oes gan yr ymgynghorai rheoliad 42 unrhyw wybodaeth yn ei feddiant y mae'r person hwnnw neu'r ymgynghorai rheoliad 42 yn ystyried ei bod yn berthnasol ar gyfer paratoi datganiad amgylcheddol ac os oes ganddo, rhaid i'r ymgynghorai rheoliad 42 sicrhau bod unrhyw wybodaeth o'r fath ar gael i'r person hwnnw.

(2) Mae rheoliad 15(5) yn gymwys i wybodaeth o dan baragraff (1) fel y mae'n gymwys i unrhyw wybodaeth sy'n dod o fewn rheoliad 15(4).